**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
y Pwyllgor Cyllid

8 Rhagfyr 2022

Annwyl Peredur,

Diolch am y cyfle i drafod Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn sesiwn y Pwyllgor ar y 9fed o Dachwedd, 2022.

Ymrwymais i ddarparu rhagor o wybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor fel a nodir isod:

Amodau eithriadol y farchnad.

Codwyd cwestiwn ynghylch cost defnyddio pwerau yn y gorffennol i ddatgan amodau eithriadol yn y farchnad, pan ddarparwyd enghreifftiau o ymyriadau blaenorol megis Traed a'r Genau a BSE. I egluro, cafodd ffermwyr iawndal o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 am y digwyddiadau hyn, yn hytrach na phwerau ar gyfer amodau eithriadol y farchnad.

Yn y cyfnod 2011-2021, lansiwyd dau gynllun ymyrraeth argyfwng, er mwyn cefnogi'r sector llaeth. Daeth un ar ffurf cefnogaeth ar draws yr UE yn 2016, a oedd mewn ymateb i galedi a achoswyd gan ddiwedd cwotâu llaeth, gwaharddiad Rwsia ar fewnforion bwyd yr UE a phrisiau olew isel.

Dylid nodi efallai na fydd y cynllun hwn yn adlewyrchu'n uniongyrchol y math o gynllun sy'n bosibl o dan y pwerau arfaethedig ar gyfer amodau eithriadol y farchnad yn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru), gan iddo gael ei gynnig fel cyfres ehangach o gymorth gan yr UE i'r sector llaeth. O dan gynllun 2016, dyrannwyd €30,195,996 i'r DU o dan y mesur ymyrraeth argyfwng hwn. Ar y pryd, amcangyfrifodd swyddogion y byddai'r cymorth i Gymru tua £3.2 miliwn. Wedi ei addasu ar gyfer chwyddiant, yn 2022 byddai hyn werth £4 miliwn.

Yn 2020, lansiwyd cynllun i gefnogi'r sector llaeth pan orfododd pandemig Covid-19 y sefydliadau lletygarwch i gau. Er i'r cynllun hwn ddefnyddio pwerau dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fe'u defnyddiwyd mewn ffordd debyg i sut y gellid defnyddio'r pwerau arfaethedig. O dan y cynllun yma, cafodd £1,018,500 ei dalu i ffermwyr llaeth Cymru, sydd, o'u haddasu ar gyfer chwyddiant, yn cyfateb i £1,182,000 ym mhrisiau 2022.

Cynlluniau a'u heffaith ariannol.

Gwnes i ymrwymo i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am y gofynion monitro ac adrodd o fewn y Bil, mewn perthynas â'r cynlluniau a allai weithredu o dan y pŵer i ddarparu cymorth a'u heffaith ariannol. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer tri math o adrodd, ac mae pob un ohonynt yn cael ei amlinellu ymhellach isod. Yn gyntaf, adroddiadau rheoli tir yn gynaliadwy (SLM), gan gynnwys gosod targedau a dangosyddion, yn ail yr Adroddiad Blynyddol, ac yn drydydd yr Adroddiad Effaith, y ddau adroddiad olaf sy'n dod o dan y pŵer i ddarparu darpariaethau cymorth. Mae'r Asesiad o'r Effaith Reoleiddio yn nodi costau dangosol cynllun yn y dyfodol sy'n gweithredu o dan y pŵer i ddarparu cefnogaeth sy'n cyfrannu at gyflawni targedau SLM a Llywodraeth Cymru yn ehangach.

Monitro ac adrodd ar Reoli Tir yn Gynaliadwy (SLM)
Mae'r darpariaethau monitro ac adrodd SLM (adrannau 4 i 7) yn ceisio sicrhau gweithredu effeithiol ac atebolrwydd ac ymgysylltu priodol â'r Senedd a rhanddeiliaid. Maent yn darparu'r gallu i asesu effeithiolrwydd polisïau a byddant yn ffurfio sylfaen dystiolaeth bwysig sy'n datblygu ar gyfer datblygu polisïau parhaus.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi datganiad yn nodi dangosyddion SLM i fesur cynnydd tuag at gyflawni amcanion SLM, a thargedau mewn perthynas â'r dangosyddion hynny (adran 4). Bydd y rhain yn rhan allweddol o fonitro ac adrodd y darpariaethau SLM a bydd yn helpu i lywio penderfyniadau polisi'r dyfodol o ran yr hyn sy'n gweithio i'r sector a'r hyn sydd angen ei newid.

Gall dangosyddion a thargedau ddarparu ffyrdd penodol a mesuradwy o gofnodi cynnydd yn erbyn amcanion SLM. Mae gosod targedau yn fodd i wella atebolrwydd, er enghraifft, drwy wella tryloywder. Cyn gosod dangosyddion a thargedau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori, gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n ofynnol iddynt roi sylw i rai materion, gan gynnwys yr Adroddiad Effaith diweddaraf (os o gwbl) a gyhoeddwyd o dan adran 13 o'r Bil (adran 5).

Rhaid cyhoeddi a gosod y datganiad cyntaf o ddangosyddion a thargedau gerbron y Senedd erbyn 31 Rhagfyr 2025 fan bellaf. Dewiswyd y dyddiad hwn er mwyn sicrhau digon o amser ar gyfer ystyriaeth briodol a pharatoi'r dangosyddion a'r targedau, gan gynnwys ymgynghori.

Mae'n ofynnol hefyd i Weinidogion Cymru adrodd o bryd i'w gilydd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn amcanion SLM, trwy arfer y swyddogaethau y mae'r ddyletswydd SLM yn gymwys iddynt (adran 6).

Rhaid i adroddiadau'r SLM nodi asesiad Gweinidogion Cymru o'r cynnydd cronnus a wnaed, ers i'r ddyletswydd SLM ddod i rym, tuag at gyflawni amcanion SLM a'r cynnydd a wnaed, yn ystod y cyfnod adrodd, tuag at gyflawni'r amcanion hynny.

Daw'r cyfnod adrodd SLM cyntaf i ben ar 31 Rhagfyr 2025, ac mae'r cyfnodau adrodd dilynol am gyfnodau olynol o bum mlynedd. Mae hyn er mwyn cyd-fynd â'r adrodd gyda hyd y contract arfaethedig ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Gwneir darpariaeth hefyd i Weinidogion Cymru newid y cyfnod adrodd yn ôl y rheoliadau. Rhaid i adroddiadau SLM gael eu cyhoeddi a'u gosod gerbron y Senedd ddim hwyrach na 12 mis ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd.

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i rai materion wrth baratoi adroddiadau SLM, gan gynnwys yr adroddiad Effaith diweddaraf (os o gwbl) a gyhoeddwyd o dan adran 13 o'r Bil (adran 7). Mae hyn yn golygu y bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried yr Adroddiad Effaith (os o gwbl), a materion perthnasol eraill, i asesu ac adrodd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion SLM.

Adroddiad Blynyddol.

Gyda'r bwriad o ddarparu llywodraethiant, atebolrwydd a thryloywder da o arian cyhoeddus, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi Adroddiad Blynyddol mewn perthynas â phob cyfnod adrodd. Bydd yr Adroddiad Blynyddol cychwynnol yn ymdrin â'r cyfnod hyd at 31 Mawrth 2025, ac yna bydd yr Adroddiad Blynyddol yn ymdrin â'r flwyddyn ariannol. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys gwariant ariannol yr holl gymorth a ddarperir yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad. Pan fydd cefnogaeth heb fod yn ariannol wedi cael ei ddarparu, bydd manylion hyn hefyd yn cael ei gynnwys.

Mae'n rhaid i'r Adroddiad Blynyddol gynnwys y meysydd allweddol canlynol:

a) Cyfanswm y cymorth ariannol a ddarperir yn ystod y flwyddyn ariannol.

b) Manylion bob cymorth ariannol a ddarperir yn ystod y flwyddyn.

c) Manylion yr holl gymorth ariannol a heb fod yn ariannol a ddarperir o dan bob cynllun cymorth a sefydlwyd yn unol â'r pŵer i ddarparu cymorth (adran 8).

Yn ogystal, caiff yr Adroddiad Blynyddol hefyd ddarparu unrhyw wybodaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, fanylion am unrhyw gefnogaeth a dynnwyd yn ôl, neu a yw unrhyw gymorth ariannol a gafodd ei dalu, yn cael ei adennill a'r rheswm dros hyn. Gall hefyd dynnu sylw at unrhyw daliadau untro i gefnogi unrhyw brosiectau gwariant cyfalaf. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd ddarparu gwybodaeth am nifer y sawl sy'n elwa o gymorth, o dan bob cynllun cymorth neu unrhyw gymorth a ddarperir.

Nid bwriad yr Adroddiad Blynyddol yw cynnwys unrhyw asesiad mewn perthynas â'r pŵer i ddarparu dibenion cymorth, na'r amcanion Rheoli Tir Cynaliadwy.

Adroddiad effaith

Rhaid paratoi Adroddiad Effaith mewn perthynas â phob cyfnod adrodd - y cyfnod cyntaf yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2029, a chyfnodau olynol o bum mlynedd ar ôl y dyddiad hwnnw.  Bwriad yr Adroddiad Effaith yw darparu mecanwaith hanfodol i werthuso effaith ac effeithiolrwydd yr holl gefnogaeth, a ddarperir gan unrhyw gynlluniau sy'n gweithredu o dan y pŵer i ddarparu cefnogaeth.  Bwriad yr Adroddiad Effaith yw dangos a yw rhai camau yn parhau i fod yn addas i'r diben. Ar ben hynny, mae'r adroddiad hwn yn darparu proses o atebolrwydd, tryloywder, yn ogystal â ffordd o fesur yn erbyn y dibenion y rhoddir cefnogaeth ar eu cyfer, ac asesiad o'r cyfraniad cefnogol tuag at gyflawni amcanion SLM. Bydd hyn yn ffurfio sylfaen dystiolaeth bwysig a pharhaus ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol. Mae'r Adroddiadau Effaith yn un o nifer o ddogfennau a fydd yn llywio Adroddiad SLM.

Asesiad Effaith Rheoleiddio.
Yn yr Asesiad o'r Effaith Reoleiddio (RIA) rydym yn nodi costau dangosol cynllun yn y dyfodol sy'n bodloni gofynion SLM a thargedau sydd wedi ymrwymo iddynt gan Lywodraeth Cymru.

O ran cynllun SFS y dyfodol, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddio yn amcangyfrif y costau mewn 6 maes gwahanol:

- costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru;
- y costau cydymffurfio;
- amcangyfrif costau taliadau blynyddol i ffermwyr;
- Costau Amcangyfrif Cyswllt Ffermio a'r Gwasanaeth Cyswllt Fferm
- amcangyfrif o'r costau i CNC;
- a'r amcangyfrif o gostau i'r sector amaeth o fynd i mewn i'r cynllun arfaethedig.

Dyma gyfrif cynhwysfawr o'r costau tebygol.

O ran amcangyfrif o gostau taliadau blynyddol i ffermwyr, nid ydym eto mewn sefyllfa i nodi'r gwariant blynyddol disgwyliedig ar daliadau i ffermwyr o dan y cynllun i'r dyfodol.

Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddais gynigion amlinellol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy cyn y Sioe Frenhinol i drafod â ffermwyr yn y broses o gyd-ddylunio. Mae'r cynigion hefyd yn dangos yn glir y mathau o gynllun rwy'n bwriadu ei gyflwyno o dan bŵer darpariaethau cymorth yn y Bil.

Byddaf yn ymgynghori ar y cynllun terfynol y flwyddyn nesaf. Bydd hyn yn cynnwys ystod o dystiolaeth ynghylch asesiad o'r Cynllun a'r canlyniadau yr ydym yn disgwyl eu cyflawni.

Nid yw Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn diffinio'r mecanwaith cyflenwi ar gyfer cefnogaeth i'r dyfodol. Gan fod yr SFS arfaethedig yn dal i gael ei ddylunio (yn cael ei gyd-ddylunio â rhanddeiliaid ar hyn o bryd) nid oes modd cynnal asesiad meintiol o'r buddion ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal dadansoddiad economaidd o'r SFS arfaethedig a fydd yn mesur manteision y cynllun cymorth yn y dyfodol unwaith y bydd dyluniad y cynllun wedi'i gwblhau.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**